Cyngor Cymuned Llaneilian (324)
Cofnodion cyfarfod Mehefin 9 2020 a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo am 7yh.

Presennol: Elfyn Hughes, Ian Evans, Dafydd Griffiths, John Griffiths, Glenys Jones, Gordon Hayes, Carol Whitaker, Helen Hughes, Hefina Williams, Arfon Morgan, Carli Evans Thau (Clerc)

Ymddiheuriadau: Thomas Jones

Yn absennol: Neb

1 Croeso

Cadeirwyd y cyfarfod gan Elfyn Hughes ac fe groesawyd pawb oedd yn bresennol. Nodwyd nad oedd y cynghorwyr sirol wedi eu gwahodd i'r cyfarfod.

2 Datgan Diddordeb

Neb

3 Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol yn dilyn Archwiliad Mewnol

Cadarnhawyd bod pob aelod wedi derbyn yr adroddiad blynyddol ac adroddiad yr archwiliwr mewnol ac wedi cael cyfle i'w darllen.

Nodwyd bod camgymeriad yn rhes 10 yr adroddiad blynyddol ac y dylai'r ffigwr yma ddangos £0. Cadarnhaodd y clerc ei bod wedi gwirio hyn gyda'r archwiliwr mewnol.

Cadarnhawyd bod pob taliad yn cael ei gyflwyno i, ai gymeradwyo gan y Cyngor Llawn ac nid gan y Pwyllgor Cyllid a Personel fel sydd wedi ei nodi yn adroddiad yr archwiliwr mewnol.

Cynnigwyd bod yr adroddiadau yn cael eu cymeradwyo a'u cyflwyno i'r archwiliwr allannol. Cynnig Dafydd Griffiths eilio Carol Whitaker, cefnogwyd yn unfrydol.

4 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Bydd y cyfarfod cyffredinol nesaf Gorffennaf 14, 2020 am 7 o'r gloch
Bu'r cyfarfod orffen am 7.15 o'r gloch

Arwyddwyd
Elfyn Hughes
Cadeirydd

CET06/2020